

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod:	28 Ionawr 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Huw Hilditch-Roberts / Geraint Davies (Pennaeth Addysg)
Awdur yr Adroddiad:	Geraint Davies (Pennaeth Addysg) / Ian Land (Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau)
Teitl	Cludiant i Ddysgwyr: Darpariaeth ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Diffiniad o Ysgolion Categori 1 yn y Sir

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 I ddarparu trosolwg o ofynion cludiant i'r ysgol fel sy'n berthnasol i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg o dan y Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cludiant i Ddysgwyr 2018 yr Awdurdod ei hun.
- 1.2 I ddarparu trosolwg o Gategoreiddio ysgolion Cymraeg a sut mae hyn yn berthnasol i Gludiant i'r Ysgol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Ar gais Aelodau, darparu manylion i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad o Bolisi Cludiant i Ddysgwyr y Cyngor gan ei fod yn berthnasol i Ysgolion Uwchradd Categori 1 a 2; a'r diffiniad o 'ysgol addas' mewn perthynas â Chategori 1 a 2 os bydd rhieni yn ffafrio dewis Categori 1.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn trafod cynnwys yr adroddiad ac yn cadarnhau nad oes angen newid i Bolisi'r Awdurdod gan fod y:

- Polisi Cludiant i Ddysgwyr 2018 yn llwyr ddiwallu'r gofynion statudol presennol o dan y Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008; sydd wedi'i brofi'n gyfreithiol cyn ei fabwysiadu yn 2018.
- Byddai newid sut mae Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg Categori 1 a 2 yn derbyn sylw o ran cludiant yn tanseilio darpariaeth Addysg mewn Ysgolion Cymraeg Categori 2 yn Sir Ddinbych.
- Byddai hefyd yn gwneud yr Awdurdod yn agored i her o ran penderfyniadau a wnaed yn flaenorol, neu benderfyniadau a wneir yn y dyfodol os bydd y rhain yn gwrth-ddweud y Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar newidiadau posibl yn y dyfodol i'r Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn Ionawr 2021, a gallai canlyniad y broses eto newid gofynion yn y dyfodol ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar 'Categoriâu ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng-Cymraeg' ar hyn o bryd a gall canlyniad y broses hon hefyd newid y categorieiddio presennol ar gyfer holl ysgolion cyfrwng Cymraeg ac unrhyw Ddeddfwriaeth gysylltiol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yng nghyd-destun Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae Adran 10 o'r Ddeddfwriaeth yn cynnwys '*Hybu Mynediad i Addysg Cyfrwng Cymraeg*'. Mae hyn yn nodi:

Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg wrth arfer swyddogaethau dan y Mesur hwn.

4.2 Yn ymarferol, y ffordd mae holl Awdurdodau yng Nghymru yn cwrdd â'r gofyniad hwn yw darparu cludiant am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf i'r cartref; os yw hwn yn ddewis gan y rhiant / gofalwr. Felly, mae hyn yn caniatáu i deuluoedd naill ai cael cludiant am ddim i'w hysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg addas agosaf. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn parhau'n ddibynnol ar ddiwallu'r meini prawf pellter a nodir yn y Mesur:

- Darperir cludiant am ddim i'r sawl sy'n byw dros 2 filltir o'u hysgol gynradd addas agosaf yn unig; a
- Darperir cludiant am ddim i'r sawl sy'n byw dros 3 milltir o'u hysgol uwchradd addas agosaf yn unig.

I'r sawl sy'n byw o dan y pellter hwn mae yna eithriad y dylai dysgwyr gerdded i'r ysgol os yw'n ddiogel i wneud hynny.

4.3 O ran y ddyletswydd a osodir ar yr Awdurdod Lleol sy'n ymwneud â'r 'ysgol addas agosaf' mae Adran 2(3) o'r Mesurr yn nodi:

(3) At ddibenion is-adran (2), mae 'anghenion teithio dysgwyr' o ardal awdurdod lleol yn anghenion dysgwyr sydd yn preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod ar gyfer trefniadau teithio addas bob dydd i ac o fannau addas ble maent yn derbyn addysg neu hyfforddiant.

Mewn perthynas â diffiniad y Mesur o 'fannau addas' mae Adran 4 (7b) yn gyntaf yn nodi:

(7) Wrth ystyried pa un a yw trefniadau teithio yn angenrheidiol at ddibenion yr adran hon gall awdurdod lleol -

(b) ystyried yn arbennig pa un a yw'r plentyn yn mynychu'r lle perthnasol addas agosaf i breswyliaeth gyffredin y plentyn.

Yn ogystal, mae'r Mesur yn rhoi diffiniad o 'Fan Perthnasol' yn Adran 4(9):

(9) At ddibenion yr adran hon, mae man perthnasol yn addas i blentyn os yw'r addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir yno yn addas, o ystyried oed, gallu a doniau'r plentyn ac unrhyw anawsterau dysgu a all fod ganddo ef neu ganddi hi.

4.4 Mae'r elfen hon o'r Mesur wedi'i chynnwys yn Adran 2.3 o Bolisi Cludiant Dysgwyr Sir Ddinbych 2018:

2.3 Yr Ysgol Addas Agosaf

Mae'r ysgol addas agosaf yn ysgol sy'n darparu addysg briodol i oed, gallu, dawn y dysgwr ac unrhyw anghenion dysgu sydd ganddynt. Fel arfer, bydd yn ysgol yn yr ardal ble mae'r dysgwr yn byw, neu ysgol arall (e.e. allan o'r sir) os yw yn agosach i'r cartref.

(Mae fersiwn llawn o Bolisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych 2018 wedi'i ddangos yn Atodiad 1)

4.5 Wrth asesu cymhwyster yn erbyn y Polisi, mae'n rhaid i Gefnogaeth Addysg felly ystyried pa ysgol yw'r agosaf i leoliad cartref y dysgwr. Mae cyfleusterau ar wefan Sir Ddinbych o dan 'Fy Eiddo' yn cynorthwyo teuluoedd i asesu pa ysgol yw'r agosaf

iddyn nhw cyn iddynt ymgeisio am le mewn ysgol ac/neu gludiant. Mae staff cymorth Addysg hefyd ar gael i gynghori pa un yw'r agosaf ar gais.

- 4.6 Ym Mholisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych 2018, os bydd cludiant yn ofynnol ar sail y Gymraeg, mae'n rhaid i'r tîm cymorth Addysg ddilyn Adran 3.3 o'n Polisi:

3.3 Addysg Cyfrwng Cymraeg neu Saesneg

Yn unol ag adran 10 Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cludiant yn ôl disgrisiwn i'r addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg addas agosaf, os mai dyma ddewis y rheini / gofalwyr. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yr ysgol hon yw'r ysgol addas agosaf.

Ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg, byddai'n ysgol sydd wedi ei chategoreiddio fel naill ai 1 neu 2 o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer categori 2, byddai'n ysgol lle yr addysgir o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond maent hefyd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn dangos categorïau Ysgol Cyfrwng Cymraeg Sir Ddinbych.

Os yw'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg agosaf y tu allan i'r Sir, yna bydd yr Awdurdod yn dal i ddarparu cludiant. Bydd ffafriaeth ond yn cael ei hystyried yn erbyn ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg. Bydd meini prawf pellter adran 2.2. yn dal yn berthnasol.

- 4.7 Ar gyfer ceisiadau am gludiant am ddim i Ysgol Gynradd neu Uwchradd cyfrwng Cymraeg, bydd cymorth Addysg yn cyfrifo pellteroedd unigol o leoliad cartref y dysgwr i'r ysgol yn eu cais. Os nad yw'r ysgol cyfrwng Cymraeg yr un agosaf addas ac nad yw darpariaethau yn Adran 3.3 a 2.2 o'n Polisi yn cael eu diwallu, yna bydd cludiant yn cael ei wrthod. Mewn unrhyw ddull sy'n defnyddio lleoliadau cartref dysgwyr i gyfrifo pellter i'r ysgol, bydd yna bob amser ganran o ddysgwyr nad ydynt yn derbyn cludiant am ddim. Fodd bynnag, dyma sut mae'r Ddeddfwriaeth wedi'i dylunio i gael ei defnyddio ac ni ddisgwylir i Awdurdodau ddarparu cludiant i bob dysgwr, ond i'r sawl ble mae yna ddyletswydd.

4.8 Categoriadau Ysgolion Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu diffiniad ar gyfer categorieiddio ysgol cyfrwng Cymraeg yn eu dogfen '*Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg*'. Mae hwn i'w weld yn Atodiad 2. Mae categorieiddio fel mae'n ymwneud â Chategori 1 a 2 mewn Addysg Uwchradd i'w weld ar dudalennau 11 a 12 yn y ddogfen honno.

4.9 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar '*Gategoreiddio ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg*.' Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar sut mae ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn cael eu categorieiddio. Bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn: fydd yn dod i ben ar 26 Mawrth 2021. Gall canlyniad yr ymgynghoriad hwn gynnwys goblygiadau i unrhyw bolisiâu cysylltiol sydd gan Awdurdodau ynglŷn â Chymraeg mewn Addysg, gan gynnwys cludiant. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio alinio Deddfwriaeth arall, fel y Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a bydd yr Awdurdod yn gorfod aros am gasgliad y ddau ymgynghoriad.

4.10 Mae Adran 3.3 o Bolisi'r Awdurdod yn amlygu y dylai ysgolion sy'n cael eu categorieiddio naill ai'n 1 neu 2 (*ble mae o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio y Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg*) gael eu trin yr un fath. Mae hyn yr un fath yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod, a ddangosir yn Atodiad 3.

4.11 **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Deithio Gan Ddysgwyr**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i Awdurdodau Lleol ym mis Ionawr 2021 yn gofyn am ddata a barn ar newidiadau posibl ynglŷn â'r Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae Sir Ddinbych wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r gwasanaethau a ddisgrifir yma oll yn cefnogi'r flaenoriaeth i wella addysg, yn unol â'r flaenoriaeth o ran pobl ifanc, a Sir Ddinbych yn fan lle mae ar bobl iau eisiau byw a gweithio ynddo a meddu ar y sgiliau i wneud hynny.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Mae'r adroddiad hwn at ddibenion trafodaeth. Ni ofynnwyd am unrhyw newidiadau i'r broses na'r Polisi. Fodd bynnag, gall unrhyw newidiadau i Gludiant i'r Ysgol ond dod i rym yn dilyn ymgynghoriad priodol sy'n rhaid ei gwblhau a'i gymeradwyo blwyddyn ysgol lawn ymlaen llaw. Mae hyn yn cael ei lywodraethu o dan Statud. Bydd unrhyw newidiadau hefyd yn cael effaith ar y gyllideb Cludiant i'r Ysgol cysylltiol a byddai newidiadau i Bolisi hefyd angen cael eu profi'n gyfreithiol cyn gweithredu.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1 Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les gan fod yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth sydd ond yn ymwneud â Deddfwriaeth bresennol a Pholisi Cludiant i Ddysgwyr Sir Ddinbych; a aseswyd ei effaith pan gafodd ei ddatblygu a'i gymeradwyo yn 2017.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Mae'r adroddiad hwn ar gyfer trafodaeth; fodd bynnag, cafodd adroddiad cysylltiol ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth 2018 oedd yn ystyried 'Newidiadau Clwstwr Ysgolion' yn dilyn Gweithgor o dan arweiniad aelod. Cafodd yr adroddiad o Mawrth 2018 ei ddarparu yn sgil cais cysylltiedig gan Ysgol Cyfrwng Cymraeg o Sir Ddinbych i ailystyried trefniadau clwstwr oherwydd materion canfyddedig Cludiant i'r Ysgol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag mae'n bwysig nodi y dylid ystyried oblygiadau ariannol a gyfyd o ganlyniad i unrhyw newidiadau arfaethedig i drafnidiaeth ysgolionr mor fuan â phosibl. Gwnaed buddosddiad sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y gyllideb Trafnidiaeth Ysgolion, er hynny mae'n debygol o barhau i fod yn faes pwysau ariannol pan fydd ysgolion yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r adroddiad hwn yn bapur trafodaeth ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig wedi eu cyflwyno; fodd bynnag, gweler Adran 3 ar Argymhellion sy'n amlinellu risgiau posibl.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

11.2 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.3 Mae adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi grymoedd Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.